# CYDBWYLLGOR AHNE BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

# CYNLLUN DIRPRWYO AR GYFER YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO A DATBLYGU

1. Un o swyddogaethau'r Cydbwyllgor ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (CB) yw ymateb i ymgynghoriadau cynllunio a datblygu y cyfeirir at yr AHNE ar gyfer sylwadau. Mae'r rhan fwyaf o ymgynghoriadau yn ymwneud â chynigion yn yr AHNE, ond maent hefyd yn cynnwys y rhai y tu allan i'r ardal ddynodedig sydd o fewn lleoliad y dirwedd warchodedig a gall effeithio ar yr AHNE.

2. Er mwyn galluogi'r AHNE i ymateb mewn modd amserol ac effeithlon, mae'r CB yn dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Cynllunio AHNE a/neu'r Swyddog AHNE i ymateb i bob ymgynghoriad cynllunio a datblygiad cysylltiedig ar eu rhan (gweler y Nodyn isod), ac eithrio **cynigion mawr a materion polisi** a allai gael effaith fwy sylweddol neu fod o ddiddordeb ehangach. Gall y rhain fod o fewn yr AHNE neu ei leoliad a chynnwys:

- Cynigion ar gyfer 5 neu fwy o anheddau y tu allan i Ffiniau'r Datblygiad / Anheddiad.
- Datblygiad dros 25m o uchder (gan gynnwys tyrbinau gwynt, mastiau telathrebu, ac ati).
- Adeiladau newydd neu estyniadau dros 1000 metr sgwâr mewn arwynebedd llawr (gan gynnwys defnydd amaethyddol, masnachol neu ddiwydiannol).
- Cynigion sy'n cynnwys arwynebedd safle mwy na 5 hectar (gan gynnwys defnydd solar, mwynau, twristiaeth a hamdden).
- Cynlluniau Datblygu Lleol wedi'u paratoi gan y tri awdurdod cynllunio lleol cyfansoddol.
- Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol wedi'u paratoi gan y tri awdurdod cynllunio lleol cyfansoddol.
- Ceisiadau'n amodol ar Asesiad Effaith Amgylcheddol ffurfiol (EIA).
- Gorchmynion Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiectau Isadeiledd Cenedlaethol eu Harwyddocâd (NSIP) a bennwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU.
- Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol (DNS) a bennir gan Weinidogion Cymru.
- Ymgynghoriadau polisi cynllunio a datblygu gan Lywodraeth Cymru neu asiantaethau neu sefydliadau perthnasol eraill.

3. Ar gyfer cynigion helaeth a materion polisi, bydd swyddogion yn cyflwyno argymhellion i'r CB ar ymateb yr AHNE, a fydd fel arfer yn cael ei gytuno gan Gadeirydd neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

4. Mae gan y Bartneriaeth AHNE hefyd rôl i'w chwarae o ran cynghori'r CB ar faterion cynllunio a datblygu, a bydd barn y Gweithgor Cymeriad Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig yn cael ei wahodd ar y cynigion mawr neu gynigion polisi a nodir uchod cyn i swyddogion wneud argymhellion i'r CB ar ymateb yr AHNE.

5. Wrth gyflawni cyfrifoldebau'r AHNE mewn perthynas ag ymgynghoriadau cynllunio a datblygu, ni fydd digon o amser bob tro i alw cyfarfodydd ffurfiol o'r CB neu Bartneriaeth i sicrhau ymateb prydlon ac fel arfer bydd y papurau yn cael eu dosbarthu yn electronig i wahodd sylwadau.

**Sylwer:**
Mae ymgynghoriadau cynllunio ac datblygu cysylltiedig yn cynnwys:  ceisiadau am ganiatâd cynllunio, cyflawni amodau cynllunio, Caniatâd Adeilad Rhestredig, Tystysgrifau Datblygu Cyfreithlon, Newid Defnydd, gwaith i goed sydd â Gorchymyn Diogelu Coed, Rhybuddion Tynnu Gwrych, ceisiadau Sgrinio a Chwmpasu EIA, Caniatâd Hysbysebu, Hysbysiadau Cymeradwyaeth Blaenorol (amaethyddiaeth, coedwigaeth neu ddatblygiadau cyfleustodau), mân welliannau i'r priffyrdd a cheisiadau am gyngor polisi anffurfiol cyn neu ar ôl cais. Mae ail-ymgynghori ar ddiwygiadau i gynigion mawr neu faterion polisi a ystyriwyd eisoes gan y CB a'r Bartneriaeth hefyd yn cael eu dirprwyo i swyddogion.